# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7 Tachwedd 2019

Neuadd Coed-y-bryn 7.30p.m.

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng Mark Davies (Cadeirydd)<br>Cyng Julie Davies<br>Cyng Owenna Davies<br>Cyng Llŷr Evans<br>Cyng Teifi Evans | Cyng Emyr Jones<br>Cyng Evan John Jones<br>Cyng Maldwyn Lewis |
| **Ymddiheuriadau** | Cyng Roger Davies | Cyng Ceri Jones |
| **Clerc** | Lynda Williams | |

| Eitem ar yr Agenda | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 1. **Ymddiheuriadau** | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gyng Roger Davies a Chyng Ceri Jones | | |
| 2. **Cadarnhau cofnodion** | Cadarnhawyd gan Julie Davies; eiliwyd gan Evan John Jones | | |
| 3. **Datgelu Buddiannau** | Datgelwyd budd gan JD mewn perthynas ag eitem 16 ar yr agenda – Diweddariad am yr archwiliad; llanwyd a llofnodwyd y ffurflen berthnasol | | |
| 4. **Materion yn Codi o'r cofnodion** | • A190418 Pysgodfa Pwll Wyvern. Hysbyswyd y cyfarfod gan ML o'r ffaith bod y cais cynllunio wedi cael ei dynnu'n ôl. | | |
| | • Mae gofyn dychwelyd ffurflenni llofnodwyr banc i Nat West | JD a LlE | 8/11 |
| | • Mae gofyn i ddau gynghorydd fynd i Nat West gyda'r clerc newydd er mwyn trefnu ei bod hi'n llofnodwr | MO/ML/ Clerc | |
| | • Dosbarthwyd calendrau casglu gwastraff ac ailgylchu, a blychau ailgylchu gwydr i aelwydydd. Gellir gofyn am flychau ychwanegol trwy gysylltu â'r cyngor ar 01545 570881. | | |
| | • Trosglwyddir £2000 o'r cyfrif Wrth Gefn i'r cyfrif cyfredol | ML/OD | 8/11 |
| | • Golau stryd ym Mrongest – mae hwn wedi bod yn fater ers 3 blynedd. Er gwaethaf y ffaith yr anfonwyd | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 3 neges e-bost at Simon Bray, ni chafwyd unrhyw ymateb. Anfonwyd llythyr at yr aelod Cabinet ar y Cyngor nawr – rydym yn aros am ateb. Mae'n siomedig nad yw hyn wedi cael ei wneud ac mae wedi datblygu i fod yn bwynt a drafodir ym mhob cyfarfod. | ML<br>Clerc | |
| | • Yn dilyn penodiad y clerc, cytunwyd y dylid prynu gliniadur newydd gan bod angen disodli gyriant caled y gliniadur presennol. Mae Cliand Computers wedi rhoi pris o £659.99 | | |
| 5. **Materion y Cynghorydd Sir** | • Gosodwyd arwydd ffordd newydd Maesllyn.<br>• Croes-lan – Nododd EJJ bod arwydd y pentref ar goll er bod pyst yno ar ei gyfer (ger Tower Hill)<br>• Oherwydd y cynhelir yr Etholiad Cyffredinol ar 12 Rhagfyr, gohiriwyd rhai o gyfarfodydd y cyngor. (y rhif ffôn er mwyn trefnu pleidlais trwy'r post yw 01545 570881)<br>• Mae'r Adolygiad o Orsafoedd Pleidleisio yn mynd rhagddo.<br>• Peilot y Cyfrifiad yng Ngheredigion: cwblhawyd y peilot a dylai'r holl ymatebion fod wedi cael eu hanfon.<br>• Ar nos Fercher 6 Tachwedd, cynhaliwyd digwyddiad yn Theatr Felin-fach i lansio'r fersiwn wedi'i ddiweddaru o 'Atgofion Ruth Mynachlog'. Canmolwyd y perfformiad gwych gan ML – OD oedd y prif leisydd. | | |
| 6. **Gohebiaeth** | Datganiad o'r Taliad a Wneir i Aelodau (Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol). Cyflwynir ffurflen yn nodi DIM | Clerc | 3/12 |
| 7. **Ariannol** | Ashmole & Co - £36 | | |
| 8. **Cais Cynllunio** | A190861 – Penrhiwpal Isaf, Penrhiw-pâl.<br>Ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau, a chytunwyd y dylid cefnogi'r cais, ond fel mesur dros dro nes y caiff yr annedd ei gwblhau. | Y clerc i ddiweddaru'r dudalen ar y we ynghylch cynllunio | cyn gynted ag y bo modd |
| 9. **Materion Ardal** | • Canghennau sy'n Bargodi: – cwynion a gafwyd: -<br>JD – Y clawdd o Benrhiw-pâl i Borthdy Gwernant.<br>LlE – Clawdd ar ffordd Rhydlewis o Benrhiw-pâl<br>Clawdd ar Rhiw Salem (o Aelybryn i Frongest) | JD/LlE i gysylltu â'r perchennog/ tenant yn y lle cyntaf | 3/12 |
| | • Ffostrasol - nododd OD bod mainc yng Nghapel Cynon nad yw'n cael ei defnyddio – a fyddai modd ei gosod mewn man arall? | MD | 3/12 |
| | • Dylid cadw cofrestr o'r meinciau a'u lleoliadau. Gofynnir i bawb fwrw golwg ar hyn ac adrodd yn ôl y cyfarfod nesaf | Pawb | 3/12 |
| | • Lloches Bws Ffostrasol – Canslwyd y contract glanhau gryn amser yn ôl, ond nid yw wedi cael ei ddisodli. Mae preswylydd wedi mynegi diddordeb mewn glanhau'r lloches. | OD | 3/12 |
| | • Bydd y Cadeirydd yn troi goleuadau coeden Nadolig | | |

Coed-y-bryn ymlaen ar nos Sul 1 Rhagfyr am 5pm

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10. **Ffurflen Grant** | Wedi'i gario ymlaen i'r cyfarfod nesaf | OD | 3/12 |
| 11. **Ffurflenni Banc** | Trafodwyd dan Eitem 4 | | |
| 12. **Gliniadur** | • Mae'r gliniadur at ddefnydd y cyngor cymuned yn unig.<br>• Mae angen adolygu a diweddaru'r wefan. Mae OD wedi bod yn trafod hyn gyda Lesley Parker. Cytunwyd y dylai'r clerc gyfarfod gyda Lesley i adolygu'r broses (y tâl a godir yw £30 yr awr).<br>• Trafodwyd cynnwys y gliniadur. | Clerc | 3/12 |
| 13. **Penodi cynghorydd newydd** | • Mae'r dystysgrif ar gyfer Eirian James yn cael ei pharatoi.<br>• Trafodir penodi cynghorydd newydd yn ystod y cyfarfod nesaf | | |
| 14. **Cyllideb 2020-2021** | Paratowyd copi drafft, ond efallai y bydd angen ei ddiwygio | | |
| 15. **Materion eraill yn Codi** | • Anfonir llythyr o ddiolch at Arthur Davies, Tafarn Ffostrasol am drefnu'r noson tân gwyllt.<br>• Cwblhawyd a llofnodwyd contract y clerc. Cynigiwyd gan ML; eiliwyd gan EJ. | Clerc | 3/12 |
| 16. **Archwiliad** | Cynhaliwyd trafodaeth bellach.<br>• ML i gysylltu â Deryck Evans yn Swyddfa Archwilio Cymru am ddiweddariad.<br>• OD i gysylltu a Un Llais Cymru | ML<br>OD | 3/12<br>3/12 |
| 17. **Eitemau i'w trafod yn ystod y cyfarfod nesaf** | Materion Lleol: Penodi cynghorydd newydd; Archwiliad; Ffurflenni Banc; Ffurflen Grant | | |
| 18. **Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf** | Neuadd Rhydlewis, 3 Rhagfyr am 7:30pm | | |

Llofnodwyd (Cadeirydd) ________________________________________

Llofnodwyd (Is-gadeirydd) ______________________________